Prynu ar stepen eich drws

Beth ddywed y gyfraith

Os ydych chi'n prynu nwyddau neu wasanaethau oddi wrth fasnachwr sy'n ymweld â'ch cartref, er enghraifft, gwerthwr o ddrws i ddrws neu gynrychiolydd ffenestri dwbl, neu os ydych chi'n prynu o barti cartref neu werthiant cynllun parti, mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i'r nwyddau:

- **gyd fynd â'u disgrifiad.** Mae hyn yn golygu fod yn rhaid iddynt fod fel y'u disgrifiwyd gan y gwerthwr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddisgrifiad sydd ar y pecyn neu'r. Er enghraifft, os disgrifir par o gynfasau fel rhai ffitiedig, rhaid iddynt fod yn gynfasau ffitiedig. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae'n golygu hefyd fod yn rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw honiadau a wnaed amdanynt mewn hysbysebion ;*a*
- **bod o ansawdd boddhaol.** Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i'r nwyddau gwrdd â safonau y byddai unrhyw berson rhesymol yn eu disgwyl, gan gymryd i ystyriaeth y disgrifiad, y pris a phob gwybodaeth berthnasol arall. Mae hyn yn cynnwys golwg a gwedd orffenedig y nwyddau ac o ydyn nhw'n ddiogel, yn nwyddau sy'n para ac yn rhydd o unrhyw ddiffygion, yn cynnwys man ddiffygion). Rhaid i'r nwyddau hefyd fod yn addas at eu diben, sy'n cynnwys yr hyn y byddech chi fel arfer yn ei ddisgwyl oddi wrth y nwyddau dan sylw a hefyd unrhyw beth yr ydych wedi'i nodi'n benodol wrth y gwerthwr. Er enghraifft, os dywedwch wrth werthwr o ddrws i ddrws eich bod am gynnyrch glanhau sy'n addas i lanhau'ch car, ni ddylai werthu un i chi sy'n mynd i grafu'r car.

Os ydych chi'n gwneud cytundeb i gael gwasanaeth wedi'i gyflawni, er enghraifft, cytuno i osod patio, mae';r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i'r gwaith::

- **gael ei gyflawni gyda gofal a sgil rhesymol**
- **gael ei gwblhau o fewn amser 'rhesymol',** oni bai fod amser penodol wedi'i gytuno arno. Mae'r hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar y maint o waith sydd ynghlwm**.**
- **Gael ei ddarparu am gost resymol,** oni bai fod cost benodol wedi'i gytuno arno

Mae'r hawliau hyn yn ffurfio rhan o'r cytundeb rhwng y gwerthwr a'r cwsmer, sy'n bodoli hyd yn oed os nad oes dim byd yn ysgrifenedig.

Troseddau
Mae'n drosedd i fasnachwr i werthu nwyddau sy'n anniogel, sy ddim yn cyd-fynd a'u disgrifiad, neu sydd wedi'u hysbysebu am bris camarweiniol. Nid yw hyn yn wir os ydych chi'n prynu'r nwyddau oddi wrth unigolyn preifat. Mae hefyd yn drosedd pan fydd masnachwr yn ymddwyn yn ymosodol, er enghraifft, trwy wrthod gadael pan ofynnir iddynt, trwy aflonyddu arnoch neu'ch rhoi pwysau arnoch i brynu rhywbeth. Os ydych chi'n credu fod trosedd wedi'i chyflawni, fe ddylech chi riportio'r masnachwr I Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Rheolau arbennig os taloch chi trwy gredyd
Os ddefnyddioch chi'ch cerdyn credyd neu os gyflwynodd y gwerthwr chi i gyllid i dalu am y nwyddau neu wasanaethau, a bod cost y nwyddau neu wasanaethau rhwng £100 a £30,000, gall y cwmni cerdyn credyd fod yr un mor atebol am dor cytundeb, er enghraifft, os ydyw'r nwyddau'n ddiffygiol..

Canslo cytundeb
Os ydych chi'n penderfynu nad ydych chi am y nwyddau neu wasanaethau, mae';r gyfraith yn dweud fod gennych yr hawl mewn rhai amgylchiadau i ganslo'r cytundeb cyhyd a'ch body n gwneud hynny o fewn saith diwrnod, y cyfeirir ato fel cyfnod ail feddwl. Os canslwch chi yn ystod y cyfnod ail feddwl, mae gennych yr hawl i gael eich arian yn ôl. Sut bynnag, os cyflawnwyd rhywfaint o'r gwaith eisoes gyda'ch caniatâd ysgrifenedig chi, fe fydd yn rhaid i chi fel arfer dalu am y rhan hwnnw o'r gwaith. Efallai fod y masnachwr wedi cyflawni trosedd os nad ydyn nhw wedi rhoi hawliau canslo ysgrifenedig pan luniwyd y cytundeb. Fe ddylech gysylltu â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506 os na roddwyd eich hawliau canslo yn ysgrifenedig.

Nid oes gennych yr hawl i ganslo rhai cytundebau arbennig lle:

- Mae'r nwyddau neu wasanaethau a brynoch yn llai na £35
- Brynoch chi fwyd neu nwyddau darfodus eraill.

Canslo cytundeb credyd
Os ydych chi'n arwyddo cytundeb credyd yn eich cartref eich hun, ar ôl trafodaeth wyneb yn wyneb gyda'r gwerthwr, am nwyddau sy'n costio llai na £35, mae gennych hawl i gyfnod ail feddwl. Ar ôl arwyddo'r cytundeb, fe ddylech chi gael copi o'r cytundeb credyd yn gosod allan yn glir eich hawliau canslo. Fe ddylech chi hefyd dderbyn, trwy'r post, ail hysbysiad ysgrifenedig o'ch hawliau canslo. Mae'r cyfnod ail feddwl yn cychwyn ar y diwrnod yr arwyddwch chi' cytundeb ac yn dod i ben pum diwrnod ar ôl i chi dderbyn yr ail hysbysiad o'ch hawliau canslo. Os ydych chi'n dymuno canslo eich cytundeb credyd, fe ddylech chi ysgrifennu at y cwmni credyd ar unwaith. Anfonwch eich llythyr gyda dosbarthiad sy wedi'i gofnodi a chadwch gopi o'ch llythyr.

Beth i'w wneud os ydyw'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn ddiffygiol

Ad-daliad, amnewid neu atgyweiriad
Mae cael ad daliad yn dibynnu ar bryd y rhowch chi wybod am y diffyg ac os yw'ch cytundeb ar gyfer nwyddau neu wasanaeth. **Yn achos nwyddau**, os ydych chi wedi cael y nwyddau am gyfnod byr yn unig ac yn riportio'r broblem yn brydlon, fe ddylai fod gennych hawl i ddychwelyd y nwyddau a chael yr arian yn ôl. Os ydyw'r nwyddau wedi bod gennych am gyfnod hirach, mwy na thebyg eich bod wedi colli'ch hawl i gael ad-daliad llawn ond fel arfer fe fydd gennych hawl i gael rhai yn eu lle neu atgyweiriad am ddim. Os ydyw'r gwerthwr yn methu amnewid neu atgyweirio'r nwyddau yna fe allai fod gennych hawl i ad-daliad llawn neu ad-daliad rhannol, yn dibynnu faint o ddefnydd gawsoch chi ohonynt. **Yn achos gwasanaethau,** os nad yw'r gwaith wedi dechrau eto ac mae'r masnachwr wedi torri cytundeb (er enghraifft os ydyw'r cytundeb yn nodi y dylai'r gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn dyddiad arbennig ac mae'r dyddiad hwnnw bellach wedi mynd heibio), fe ddylai dod hawl gennych i gael unrhyw flaendal a dalwyd yn ôl. Os ydyw'r gwaith eisoes wedi dechrau, ond heb ei gyflawni a gofal a sgil rhesymol, fe ddylech chi geisio cael y

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

masnachwr i ddatrys y broblem gyntaf, os nad oes gennych reswm da i beidio gwneud hynny. Os na allwch chi gael y masnachwr i ddatrys y broblem, efallai y gallwch hawlio iawndal ariannol er mwyn talu masnachwr arall i unioni'r cam - gweler isod.

Iawndal
Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal os:

- yw'r cytundeb wedi'i dorri (**tor-cytundeb**) er enghraifft achos nad yw'r nwyddau yn cyd-fynd â'r disgrifiad neu heb fod o ansawdd boddhaol neu os na chyflawnwyd gwasanaeth gyda gofal sgil rhesymol, neu o fewn amser rhesymol; neu
- os ydych wedi dioddef anaf oherwydd bod y nwyddau neu wasanaethau yn beryglus neu anniogel. Mewn amgylchiadau felly fe ddylech riportio'r mater i Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506 cyn caniatáu i'r masnachwr i unioni'r cam. **Cofiwch gael cyngor cyfreithiol bob amser cyn penderfynu derbyn iawndal am anaf personol ai peidio**, neu
- yw'r gwerthwr wedi atgyweirio'r nwyddau, ond mae'r atgyweirio yn troi allan i fod yn anfoddhaol, neu
- gwnaeth y gwerthwr **ddatganiad ffug** ynglŷn â'r nwyddau er mwyn eich perswadio i'w prynu, a/neu
- ydych wedi mynd i **gostau ychwanegol** oherwydd esgeulustod y masnachwr neu dor cytundeb, er enghraifft briciau o wal newydd yn eich eiddo yn syrthio ar eich car oherwydd bod yr adeiladwr wedi bod yn esgeulus wrth ei hadeiladu.

Mae swm yr iawndal y mae gennych hawl iddo yn dibynnu ar ddifrifoldeb y tor cytundeb. Gallai gynnwys cost cael y nwyddau wedi'u hatgyweirio gan rywun arall, cost cyflogi rhywun arall i gwblhau'r gwaith neu unioni'r gwaith a/neu swm ar gyfer yr anghyfleustra a ddioddefwyd gennych

Sut i ddatrys eich problem

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth yw'ch hawliau, cysylltwch â'r gwerthwr a'r cwmni cerdyn credyd (lle mae'n berthnasol). Y gwerthwr ac nid y gwneuthurwr sy'n gyfrifol am ddelio a'ch cwyn. Dylai'r camau canlynol ddatrys eich problem:

- **peidiwch â defnyddio'r nwyddau mwyach**

- **os oes rhywun wedi'i anafu,** neu os nad yw cynnyrch yn cyd-fynd a'i ddisgrifiad, neu os nad yw'ch cytundeb yn cynnwys hawliau canslo pan ddylech chi gael rhai, fe ddylech gysylltu â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506.

- Fel arall, casglwch at ei gilydd yr holl ddogfennau perthnasol a phrawf o'r pryniant

- Cysylltwch â'r gwerthwr a'r cwmni cerdyn credyd, lle mae'n briodol, cyn gynted ag sy'n bosibl ar ol dod o hyd i'r diffyg. Os ydych chi'n cael trafferth

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

dod o hyd i gyfeiriad neu rif ffon y gwerthwr, fe allai Cymdeithas Gwerthu Uniongyrchol (DSA) (gweler isod) eich helpu. Neu fe allech ofyn i gymdogion, neu wirio gydag ymholiadau llyfr ffôn neu Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506. **Ysgrifennwch** yn esbonio beth yw'r broblem a gofynnwch am yr hyn yr ydych yn ei ddymuno, **ad-daliad**, **amnewidiad**, **atgyweiriad** neu **iawndal.** Amgaewch gopïau o'ch **prawf pwrcasu** neu **gytundeb** a **chadwch gopi** o'ch llythyr.

- Os yw'ch problem yn ymwneud a gwasanaeth, a dydych chi ddim yn gallu cytuno a'r masnachwr ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol, ceisiwch drefnu i'r masnachwr i ymweld â'ch cartref ac archwilio'r broblem. Dylid gwneud hyn o fewn 7-14 diwrnod. Cymerwch nodiadau o unrhyw sylwadau a wneir ynghyd ag enw'r person sy'n galw.

- **Os ydych chi'n dal yn anfodlon,** efallai y bydd hi'n angenrheidiol cael barn arbenigol**.** Gellir cael hyn trwy gymdeithas fasnach neu fe allai'ch arbenigwr fod yn unrhyw un sy'n gymwys ac sy'n barod i roi ei ganfyddiadau yn ysgrifenedig. Fel arfer fe fyddai'n rhaid i chi dalu am yr adroddiad hwn, ond efallai y gallwch gael y masnachwr i gytuno i dalu hanner y gost yn y lle cyntaf. Cyn I chi gyfarwyddo arbenigwr, fe ddylech chi ddod i gytundeb gyda'r masnachwr eu bod hwy'n cytuno a'r dewis o arbenigwr a'ch bod ill dau yn ymrwymol i ganfyddiadau'r arbenigwr. Fe ddylech chi wedyn fod yn gallu adfer eich cyfraniad os ategir eich cwyn.

- Ceisiwch wybod os ydyw'r gwerthwr yn aelod o **Gymdeithas Gwerthu Uniongyrchol (DSA)** neu gymdeithas fasnach debyg, ac os ydyw a oes ganddi wasanaeth cymodi neu gyflafareddu. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am y gwasanaeth hwn a gallai unrhyw benderfyniad eich **rhwymo'n gyfreithiol**, ac felly fyddech chi ddim yn gallu cymryd achos drwy'r llysoedd yn ddiweddarach, ac eithrio i orfodi dyfarniad, Os hoffech chi mwy o wybodaeth am oblygiadau defnyddio'r gwasanaethau hyn, cysylltwch â'r cymdeithasau masnach perthnasol.

- **Os nad yw'r mater heb ei ddatrys o hyd** ysgrifennwch eto at y masnachwr a'r cwmni credyd (lle mae'n berthnasol) a rhowch14 diwrnod iddynt i ddatrys y broblem, neu fe fyddwch yn ystyried cymryd camau cyfreithiol**.**. Anfonwch y llythyr gyda **dosbarthiad wedi'i gofnodi** gyda chopi i brif swyddfa'r cwmni, os oes un. **Cadwch gopïau** o bob llythyr a nodiadau am unrhyw sgyrsiau dros y ffôn gawsoch mewn cysylltiad â'ch problem

- **Os ydyw'r gwerthwr yn rhoi cynnig i chi,** fe allwch naill ai ei **dderbyn** neu **barhau i drafod.** Byddwch yn realistig yn yr hyn y byddwch yn ei dderbyn. Efallai na chewch chi gynnig gwell wrth fynd i'r llys.

- **Os nad yw'r gwerthwr yn ymateb,** gwrthod gwneud unrhyw beth, neu'n gwneud cynnig terfynol nad ydych yn fodlon ei dderbyn, yr unig ddewis arall sydd gennych yw mynd i'r llys. **Cofiwch, mynd i'r llys yw eich opsiwn olaf.** Cyn dechrau achos llys mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o dystiolaeth**.** Mae angen i chi ddarganfod hefyd os oes gan y cwmni **ddigon o**

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

arian i dalu eich hawliad. Nid yw'n werth erlyn person neu gwmni sydd heb arian

Os ydych wedi colli arian oherwydd nwyddau diffygiol neu wasanaethau gwael, peidiwch â gwastraffu arian ar achos na allwch ei ennill. .

Sefydliadau sy'n delio â chwynion am brynu o'r cartref.

Y Gymdeithas Gwerthu Uniongyrchol (DSA)
Mae'r DSA yn ymwneud a phob math o gytundebau gwerthu uniongyrchol a wneir yn y cartref. O dan God Defnyddiwr y DSA, rhai i gwmnïau sy'n aelodau roi cyfnod ail feddwl o 14 diwrnod. Mae hyn yn berthnasol pa un ai a yw'r cwsmer wedi gofyn i'r person sy'n gwerthu i alw ai peidio â heb fater o werth y gwerthiant. |Fe allwch wirio os yw cwmni yn aelod o'r DSA trwy edrych ar eu gwefan yn www.dsa.org.uk Os ydych chi wedi methu datrys y broblem gyda';r gwerthwr, mae gan y DSA drefn gwyno annibynnol. Er bod y penderfyniad yn ymrwymo'r gwerthwr, nid yw'n eich rhwystro chi rhag cymryd achos llys. Y rhif cyswllt ar gyfer y DSA yw **01604 625700**.
.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dull amgen o ddatrys anghydfod
- Credyd
- Nwyddau
- Diogelwch
- Gwasanaethau
- Dechrau achos llys

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Cyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 24 Mehefin 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr